# Cynnig i gyflwyno rheolau ar gyfer nodi gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn bwyd

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 22 Ionawr 2020
Dyddiad cau: 19 Chwefror 2020

## Crynodeb o ymatebion

### Wales

PDF
Gweld Ymgynghoriad gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn - ymatebion (Cymru) as PDF(Open in a new window) (120.5 KB)

### I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

Awdurdodau lleol a Gweithredwyr Busnesau Bwyd yng Nghymru sy'n gwerthu bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw mewn achosion lle nad yw gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn yr un peth â tharddiad y bwyd.

### Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?

Mae Rheoliadau Drafft Cymru wrthi'n cael eu paratoi i ddarparu ar gyfer gorfodi Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 2018/775. Mae'r Rheoliad yn uniongyrchol berthnasol ac yn nodi rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn lle nad yw yr un peth â tharddiad y bwyd yn ei gyfanrwydd. Daw Rheoliad Gweithredu (UE) 2018/775 i rym ar 1 Ebrill 2020.

Mae Rheoliad yr UE yn adeiladu ar y gofynion gwlad tarddiad cyffredinol yn Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE (UE) Rhif 1169/2011.

### Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Ceisio sylwadau gan ddiwydiant, awdurdodau gorfodi, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ar offeryn statudol arfaethedig a fydd yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad Gweithredu (UE) 2018/775 ar y rheolau ar gyfer nodi gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn bwyd.

### Pecyn ymgynghori

### Wales

PDF

Gweld Pecyn ymgynghori - gwlad neu fan tarddiad y prif gynhwysyn bwyd as PDF(Open in a new window) (406.72 KB)

### Sylwadau a barn

Anfonwch unrhyw sylwadau a safbwyntiau at:

Adam McDowell
Tîm Polisi Rheoleiddiol

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Llawr 11
T? Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 02920 67 8999
E-bost: Adam.McDowell@food.gov.uk

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

O fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn anelu at gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a chynnwys dolen iddo ar y dudalen hon. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU.. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.